

SUSANNE KENTON



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

Mae Susanne Kenton yn un o ffoaduriaid y *Kindertransport*. Fe'i ganwyd yn Susanne Flanter ym Merlin, lle treuliodd 13 blynedd gyntaf ei bywyd cyn iddi orfod ffoi o'i mamwlad oherwydd twf Natsïaeth ac erchylltra *Kristallnacht*.



'Aeth fy nhad i wersyll Crynhoi Sachsenhausen... rwy'n cofio fy mam yn mynd i'r Orsaf Heddlu teul bob dydd i geisio cael gwybod beth oedd wedi digwydd iddo.'

Ganwyd Susanne Flanter ym Merlin ym 1925, ac yno y treuliodd y 13 blynedd gyntaf o'i bywyd. Yn ystod y cyfnod hwn, gan ddechrau gydag un siop lyfrau, llwyddodd ei rhieni, William ac Erna Flanter, i ehangu eu busnes nes bod ganddyn nhw nifer o siopau llyfrau a llyfrgelloedd. Aeth i ysgol dda ac roedd yn ffrindiau gydag Iddewon a phlant o grefyddau eraill. Bu'n rhaid iddi sefyll ar ymyl y ffordd ochr yn ochr â'r ffrindiau hyn i saliwio Hitler wrth iddo orymdeithio drwy strydoedd y ddinas ym 1933.

Yn fuan ar ôl i Hitler ddod i rym, ymosododd Natsïaeth arfog ar siop lyfrau'r teulu Flanter. Roedd Susanne a'i rhieni wedi eu dychryn yn ofnadwy. Wrth i wrth-semitiaeth dan nawdd y wladwriaeth fynd o nerth i nerth, dechreuodd ffrindiau a chymdogion gefnu ar deulu Susanne. Gadawodd gweithwyr ei rhieni mewn ofn. Yn gyntaf, cafodd Susanne ei gwahanu oddi wrth blant nad oedden nhw'n Iddewon yn yr ysgol, ac yna cafodd ei gorfodi i adael yr ysgol 'Almaenaid' yn gyfan gwbl. Yna, ar ôl *Kristallnacht*, cafodd tad Susanne ei arestio a'i anfon i wersyll crynhoi.

Pan gafodd y plant yn ei hysgol gynnig i fynd i Loegr fel ffoaduriaid, cododd Susanne ei llaw i dderbyn. *Kindertransport* yw'r enw a fathwyd ar gyfer y system hon. Nid oedd Susanne wedi dweud wrth ei rhieni hyd yn oed. Roedd wedi anghofio ei bod hi wedi codi'i llaw nes iddi glywed bod rhywun wedi cytuno i fod yn rhieni maeth iddi yn Llundain. Aeth i fyw gyda Sydney a Golda Bourne, a oedd yn berchen ar siop ffrogiau yn Neasden.

Am gyfnod, roedd Susanne yn gallu cyfathrebu â'i rhieni ym Merlin o'i chartref newydd yn Llundain. Ymhen hir a hwyr, ni ddaeth rhagor o lythyrau. Mae Susanne yn gwybod erbyn hyn i'w rhieni gael eu halltudio i Minsk, lle buon nhw farw. Roedd llythyr oddi wrth ei mam a ddaeth i'r fei flynyddoedd lawer ar ôl ei marwolaeth yn dangos ei bod wedi gwneud ei gorau glas i gyrraedd America.



@hmd_uk

hmd.org.uk



[/hmd.org.uk](https://www.facebook.com/hmd.org.uk)

Anfonwyd y llun isod gan William ac Erna ym Merlin at Susanne yn Llundain. Ar y cefn mae neges mewn llawysgrifen: 'Sut mae hyn yn bosibl, fues ti yma heb i neb dy weld di?' Roedd rhieni Susanne wedi gosod delwedd o'i merch, a oedd gannoedd o filltiroedd i ffwrdd, ar y llun hwn, gyda hi'n gwenu ochr yn ochr â nhw.



'...stopiodd eu llythyrau yng nghanol 1941 a chlywais i ddim gair wrthyn nhw wedyn.'

Ar ôl y rhyfel, fe wnaeth Susanne gyfarfod a phriodi Gerry Kenton, cyn filwr yn y fyddin Brydeinig, ac ymgartrefodd y ddau yn Oslo ac yna ym Moscow. Roedden nhw'n byw bywyd cyffrous, gan deithio i bedwar ban a chymysgu â phobl bwysig. Ymhen amser, fe ddychwelon nhw i Lundain i fwrw gwreiddiau. Bu Susanne, Gerry a'u plant yn byw yn eu cartref teuluol yn Wembley am 32 o flynyddoedd. Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, cofiwn y miliynau na fuon nhw'n ddigon ffodus i gael rhieni maeth, a fethodd ddod o hyd i loches rhag casineb y Natsïaid, a chofiwn am y rhieni a gafodd eu gadael ar ôl.

I wybod mwy:

- Darllenwch hanes achubwyr Susanne, Sydney a Golda Bourne
- Darllenwch fwy am [yr Holocaust](#)
- Darllenwch am [y Kindertransport](#)



@hmd_uk

hmd.org.uk



[/hmd.org.uk](https://www.facebook.com/hmd.org.uk)